Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Ysgol Gynradd Groes-Wen
Primary School, Cardiff

Located in a school, Welsh-medium childcare that meets the needs of families, provides a service to the community and gives children opportunities to practice their Welsh naturally through play.

Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School is a brand-new primary school serving parts of north-west Cardiff providing 420 school places. Located at the Plasdŵr development on land South of Llantrisant Road, Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School admitted its first pupils in September 2023.

The school is a dual stream school organised as one-form of entry offering Welsh-medium education and one-form of entry offering a dual language model – 50% English-medium education and 50% Welsh-medium education.

Richard Carbis, Headteacher at Groes-Wen Primary school, has been working closely with Cwlwm partners, Mudiad Meithrin and Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, to ensure that the school met the needs of the children and families by having a childcare provision through a Cylch Meithrin and After School Club onsite. Richard strongly believed that it was vital to include childcare, that includes an After School Club on site and stated:

> "It became clear very quickly that the parents who were interested in the school were looking for childcare including an after-school club. Without the ability to have a club, I feel strongly, so many parents will not have chosen the school."

"The Cylch and an After School Club are key to the school's success. Without offering the wrap around or the opportunity to get care after school, I believe parents will have looked for another school. In a way, saying that the provision was available gave the parents reassurance that the school was opening and offering what many close peers were doing. So in the 1st place, the effect is numbers of pupils, the second effect is the ability to make the building a community one in the true sense, and thirdly, the provision will support our campaign to secure the school's future."

Richard also believes the onsite provision has had significant impact on the children and families as it enables all parties to "work closely together, ensuring the safety of the children." As well as great impact for the children when it comes to the Welsh language.

> "As a school that is new, and more, promoting a new model for parents, it was the key for pupils to have every opportunity to use the language."

As an onsite provision it also provides to families "the ability to work and choose a school that therefore offers provision and care."

Angharad Evans, Clwb and Cylch Meithrin leader, elaborated by describing the benefits of having an Out of School Club on site to the children's wellbeing and the families:

"Parents are happy with the consistency for their children, they know the school and know the staff. We received feedback to say that it is so easy for parents to travel to one place for a school and After School Club. Also, because the staff at the Cylch Meithrin are the same staff as Club, parents know us and feel like they could ask for help with their child's development."

From March, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Childcare Business Development Officer worked closely with the school and Mudiad Meithrin Development Officer to ensure the provision successfully opened by September 2023. Support was provided through Care Inspectorate Wales (CIW) registration support and Playwork training. Staff at the club achieved Playwork qualifications, delivered through Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, enabling them to enhance the quality of their provision, meet the National Minimum Standards and fulfil the registration requirements of CIW. They sought assistance from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs and 3 staff members accessed the fully funded training. The qualifications were fully funded through Cwlwm's CYMell Project via Welsh Government to encourage and support the increase of qualified Welsh language playworkers in the sector. The Club also received additional financial support through the project that helped them overcome barriers to meeting registration requirements including a bursary to pay staff to attend Welsh language qualifications and a grant to support registration costs.

Richard Carbis would recommend any school looking to open an onsite provsion to reach out to Cwlwm stating: "Without the support [of Cwlwm], the concept of opening a Cylch/Club is much more challenging and as an organisation the school will have faced several difficult obstacles to overcome. Cwlwm forms a security chain that enables us to receive support, understand processes and succeed in opening the provision for pupils in a new school which is part of the new area."

> "Without the help of Cwlwm*, the Cylch or the Club will not have been so successful in such a short period of time!"

*Consortium of five childcare organisations. Delivering a bilingual integrated service that will ensure the best possible outcomes for children and families across Wales.

November 2023
www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
Facebook
02920 **741000**

Ysgol Gynradd Groes-Wen
Primary School, Cardiff

Wedi ei lleoli mewn ysgol, gofal plant cyfrwng-Cymraeg sy'n ateb anghenion teuluoedd, yn darparu gwasanaeth i'r gymuned a rhoi i blant gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg yn naturiol trwy chwarae.

Mae Ysgol Gynradd Groes-wen yn ysgol gynradd newydd sbon sy'n gwasanaethu rhannau o ogledd-orllewin Caerdydd ac yn darparu 420 o leoedd ysgol. Wedi'i lleoli yn natblygiad Plasdŵr ar dir i'r de o Ffordd Llantrisant, derbyniodd Ysgol Gynradd Groes-wen ei disgyblion cyntaf ym mis Medi 2023.

Mae'r ysgol yn ysgol ddwy ffrwd sydd wedi ei threfnu i gynnig un math o fynediad sy'n cynnig addysg Gymraeg ac un math o fynediad sy'n cynnig model iaith ddeuol - 50% o addysg cyfrwng-Saesneg a 50% o addysg cyfrwng-Gymraeg.

Mae Richard Carbis, Pennaeth Ysgol Gynradd y Groes-Wen, wedi bod yn gweithio'n agos â'r partneriaid Cwlwm, Mudiad Meithrin a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs, i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion y plant a'r teuluoedd drwy gael darpariaeth gofal plant drwy Glwb Cylch Meithrin a Chlwb Ôl-ysgol ar y safle. Roedd Richard yn credu'n gryf ei bod yn hanfodol cynnwys gofal plant, sy'n cynnwys Clwb ar ôl Ysgol ar y safle a dywedodd:

> "Daeth yn amlwg yn gyflym iawn bod y rhieni oedd â diddordeb yn yr ysgol yn chwilio am ofal plant, gan gynnwys clwb ar ôl ysgol. Heb y gallu i gael clwb, rwy'n teimlo'n gryf, ni fydd cymaint o rieni wedi dewis yr ysgol."

"Mae'r Cylch a'r Clwb Ôl-ysgol yn allweddol i lwyddiant yr ysgol. Heb gynnig y gofal amlapiol na'r cyfle i gael gofal ôl-ysgol, rwy'n credu y bydd rhieni wedi chwilio am ysgol arall. Mewn ffordd, roedd dweud bod y ddarpariaeth ar gael yn rhoi sicrwydd i'r rhieni bod yr ysgol yn agor ac y byddai'n cynnig yr hyn yr oedd llawer o gymheiriaid agos yn ei wneud. Felly yn gyntaf yr effaith yw niferoedd y disgyblion, yr ail effaith yw'r gallu i wneud yr adeilad yn un wir gymunedol, ac yn drydydd, bydd y ddarpariaeth yn cefnogi ein hymgyrch i sicrhau dyfodol yr ysgol."

Mae Richard hefyd yn credu bod y ddarpariaeth ar y safle wedi cael effaith sylweddol ar y plant a'r teuluoedd gan ei fod yn galluogi pob parti i "weithio'n agos gyda'i gilydd, gan sicrhau diogelwch y plant." Yn ogystal â chael effaith fawr ar y plant o ran y Gymraeg.

> "Fel ysgol sy'n newydd, a mwy, yn hyrwyddo model newydd i rieni, roedd hi'n allweddol i ddisgyblion gael pob cyfle i ddefnyddio'r iaith."

Mae darpariaeth ar y safle hefyd yn rhoi i deuluoedd "y gallu i weithio ac felly ddewis ysgol sy'n cynnig darpariaeth a gofal."

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Ysgol Gynradd Groes-Wen
Primary School, Cardiff

Ymhelaethodd Angharad Evans, arweinydd y Clwb a'r Cylch Meithrin, drwy ddisgrifio manteision i lesiant y plant a'r teuluoedd bod â Chlwb All-ysgol ar y safle:

"Mae'r rhieni'n fodlon iawn â'r cysondeb i'w plant, maen nhw'n nabod yr ysgol ac yn nabod y staff. Fe gawson ni adborth i ddweud pa mor rhwydd i rieni yw gallu teithio i un lle am ysgol a Chlwb Ôl-ysgol. Hefyd, oherwydd mai'r un bobl yw staff y Cylch Meithrin a'r Clwb, mae'r rhieni'n ein nabod ac yn teimlo y gallan nhw ofyn am help gyda datblygiad eu plentyn."

O fis Mawrth, bu Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Clybiau Plant Cymru Kids' Club yn cydweithio'n agos â'r ysgol a'r Swyddog Datblygu o Fudiad Meithrin i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hagor yn llwyddiannus erbyn mis Medi 2023. Darparwyd cymorth drwy gymorth cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a hyfforddiant Gwaith Chwarae. Llwyddodd staff y clwb i ennill cymwysterau Gwaith Chwarae, a ddarparwyd trwy Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gan eu galluogi i wella ansawdd eu darpariaeth, cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bodloni gofynion cofrestru AGC. Fe wnaethon nhw ofyn am gymorth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a chafodd 3 aelod o staff fynediad at yr hyfforddiant a ariannwyd yn llawn. Cafodd y cymwysterau eu hariannu'n llawn drwy Brosiect CYMell Cwlwm drwy Lywodraeth Cymru i annog a chefnogi'r cynnydd mewn gweithwyr chwarae Cymraeg cymwysedig yn y sector. Cafodd y Clwb gymorth ariannol ychwanegol hefyd drwy'r prosiect i'w helpu i oresgyn y rhwystrau ar y ffordd i fodloni gofynion cofrestru, gan gynnwys bwrsariaeth i dalu staff i fynychu cyrsiau cymhwyso Cymraeg a grant i gefnogi costau cofrestru.

Byddai Richard Carbis yn argymell unrhyw ysgol sy'n bwriadu agor darpariaeth ar eu safle i estyn allan at Cwlwm, a dywedodd: "Heb gefnogaeth [Cwlwm], byddai'r cysyniad o agor Cylch/Clwb yn llawer mwy heriol ac fel sefydliad byddai'r ysgol wedi wynebu sawl rhwystr anodd i'w goresgyn. Mae Cwlwm yn ffurfio cadwyn ddiogelwch sy'n ein galluogi i dderbyn cefnogaeth, deall prosesau a llwyddo i agor y ddarpariaeth i ddisgyblion mewn ysgol newydd sy'n rhan o'r ardal newydd."

"Heb gymorth Cwlwm*, ni fyddai'r Cylch na'r Clwb wedi bod mor llwyddiannus mewn cyfnod mor fyr!"

*Consortiwm o bum sefydliad gofal plant. Maent yn darparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Tachwedd 2023
www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
Facebook
Instagram
02920 741000